



Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros Gymru

Polisi Rheoli Risg

Fel Comisiynydd a Swyddog Cyfrifol, fi sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau fod gan y sefydliad drefniadau sicr ar gyfer adnabod a rheoli risg. Serch hynny, ni all trefniadau o'r fath weithio'n effeithiol oni bai fod pob un ohonom ni'n gweithio ar y cyd ac yn ysgwyddo ein baich.

Yn syml, risg yw mynegiant o ansicrwydd. Digwyddiad ansicr yn y dyfodol a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein nodau.

Mae risg yn rhan o bopeth a wnawn. Mae gennym ymrwymadau uchelgeision yn ein cynllun strageol a bydd adnabod a rheoli risg yn effeithiol yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o'n helpu i gyflawni'r ymrwymadau hyn. Rwyf am i ni wreiddio rheoli risg da yn ein busnes beunyddiol, gan gynnwys rheoli perfformiad a chynllunio busnes gweithredol.

Mae'r polisi hwn, sy'n ymgorffori datganiad archwaeth am risg, yn amlinellu fy ymrwymiad i – ac ymrwymiad yr uwch-dîm rheoli – at reoli risg yn effeithiol ar draws y sefydliad; a'r safon o reoli risg yr wyf i'n disgwyl ei weld.

Byddwn ni'n creu amgylchedd a fydd yn caniatâu i reolaeth effeithiol o risg ffynnu

Bydd yr UDR yn:

- Arwain drwy esiampl gydag agweddau, ymddygiadau a gweithgareddau cadarnhaol i greu amgylchedd ble mae ystyried risg yn rhan o bopeth a wnawn;
- Annog arloesi a chymryd risg gofalus, a reolir yn dda, a thrwy wneud hynny, wella cyflawni ein nodau a sicrhau gwerth am arian;
- Hybu trafodaethau agored, gonest a chydweithredol am ein risgiau ac annog diwylliant ble bydd staff yn teimlo'n gyfforddus ynghylch lleisio gofidiau;
- Cyfathrebu negeseuon clir, gan sicrhau fod pawb yn deall y rôl y dylent ei chwarae wrth adnabod a rheoli'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol a wynebwr gennym wrth sicrhau cyflawni ein nodau'n llwyddiannus;
- Creu a hybu diwylliant tryloyw 'dim syrpreis', 'dim bwrw bai' ble anogir pob mentro gofalus; a
- Meithrin meddylfryd o wella parhaus tuag at y ffordd yr ydym ni'n rheoli risg, gan ddysgu gwersi ar hyd y daith.



Byddwn ni'n sicrhau fod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cyflawni'u cyfrifoldebau rheoli risg

Bydd yr UDR yn cefnogi rheoli risg drwy:

- Sicrhau fod gan staff allweddol ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth dda o reoli risg i'w galluogi i gyflawni'u dyletswyddau;
- Arfogi staff allweddol â'r offer, y sgiliau a'r amser sydd ei angen arnynt i gyflawni'u cyfrifoldebau rheoli risg;
- Annog a chefnogi staff i adnabod a thrafod risg i'w tasgau beunyddiol; a mynd i'r afael mewn ffordd ragweithiol â materion a ddygir i'w sylw; a
- Sicrhau fod risgiau allweddol yn weladwy; yn cael eu perchnogi gan yr aelod addas o staff, ac yn cael eu rheoli'n hyfyw.

Mae'r UDR wedi ymrwmo i weithredu dull y Comisiynydd o reoli risg yn gyson

Bydd yr UDR yn arwain drwy esiampl drwy berchnogi a bod yn atebol am risgiau ar lefel gorfforaethol, sicrhau fod gweithredu effeithiol a chymesur yn digwydd i leihau'r risgiau hynny;

Bydd yr UDR yn gweithredu dull safonol o ymdrin â rheoli risg drwy gydol y sefydliad, yn unol â Datganiad Archwaeth am Risg y Comisiynydd (gweler Atodiad A).

Bydd UDR hefyd yn integreiddio ac yn gwreiddio rheoli risg i'n gweithredoedd beunyddiol, gan gynnwys cyllid, cynllunio rheoli perfformiad a mentrau newid sylweddol.



Atodiad A

Datganiad Archwaeth am Risg y Comisiynydd

Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sut yr wyf i'n bwriadu cydbwysu risg a chyfle wrth geisio cyflawni'r ymrwymiadau a amlinellir yn y cynllun strategol.

Mae'n ffurfio elfen allweddol o'n fframwaith llywodraethiant a byddaf yn ei adolygu'n flynyddol, gan ystyried profiad a enillwyd yn ystod y flwyddyn, a chynngor a dderbyniwyd gennyf oddi wrth fy Mhwyllgor Archwilio a Gwarantu Risg.

Mae'r datganiad hwn yn gwahaniaethu rhwng y mathau hynny o risg sy'n weithredol ac o dan ein rheolaeth (er enghraifft, reoli ariannol) a'r rheiny sy'n allanol, ble rydym ni'n ddibynnol ar sefydliadau eraill i'n helpu i gyflawni ein huchelgais i sicrhau ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru. Yn yr achos olaf hwn, ein prif offer yw dylanwadu ac arwain drwy esiampl

Datganiad Cyffredinol

Nid wyf yn gyndyn o fentro. I'r gwrthwyneb, er mwyn cyflawni'r nodau yn ein cynllun strategol a chyflawni'r hyn a ddisgwylir gennym, bydd galw'n fynych i wynebu risg yn agored neu'n chwannog. Gallai gwneud fel arall olygu methu â gwneud yn fawr o gyfleoedd wrth iddynt godi.

Rhaid seilio ein dull o fynd ati ar ddoethineb ac amgylchiadau pob darpar weithred, ac asesiad o'i effaith. Ystyr hyn yw bod angen i ni flaenoriaethu ein gweithredoedd o ran risg, cost a manteision cydnabyddedig mewn dull cyson a thryloyw, gan ddewis y dull mwyaf addas o weithredu o blith yr offer sydd ar gael i ni.

Allanol

Rydym ni'n dibynnu ar gydweithrediad cyrff cyhoeddus eraill i gyflawni newid buddiol – yn unol â'r 'pum dull o weithio' – ledled Cymru. Ystyr hyn yn anorfod fydd annog a hybu dulliau arloesol o weithio er mwyn creu modelau cyflawni newydd yn unol â'n fframwaith cyfreithiol. Mae gen i, felly, archwaeth **agored** at fentro gyda risgiau a reolir yn dda pan fydd arloesi a newid yn creu cyfleoedd ar gyfer manteision gweladwy a gwelliant clir yn ein gallu i gyflawni ein nodau.

Mewn rhai achosion, bydd angen mynd ymhellach a mabwysiadu archwaeth **chwannog** at risg er mwyn cydio mewn cyfleoedd mawr wrth iddynt godi.



Gweithredol

Byddaf yn cynnal archwaeth risg **gofalus** at gynnal prosesau gweithredol sy'n cefnogi cyflawni ein nodau sy'n wynebu am allan, ond byddaf yn mabwysiadau archwaeth mwy **agored** ar gyfer datblygu a gwella'r systemau hyn er mwyn i ni gael ein gweld yn 'byw'r bregeth'.

Rydym ni'n ddibynol ar wybodaeth a data a gyflenwir gan sefydliadau eraill i gyflawni fy swyddogaethau statudol. Mae potensial gan ddatgelu neu ddefnyddio deunydd o'r fath ar ddamwain, ar gam eu mewn dull gwallus, i erydu ymddiriedaeth a / neu niweidio ein henw da. Yn hynny o beth mae gen i archwaeth **leiafsymiol** at risg o'r fath.

Rheolaeth ariannol

Rwy'n **gyndyn** ynghylch risg twyll mewnol a chamgymeriad ariannol a byddaf yn rheoli mewn dull addas, trylwyr ond cytbwys i sicrhau bod y pethau hyn yn cael eu hatal, eu canfod a'u rhwystro rhag digwydd.

Cyfreithiol

Rydym ni'n gweithio gyda deddfwriaeth sy'n gymharol amhrofedig, ac ar y cyfan, rwy'n barod i fabwysiadau archwaeth agored i gyflawni ein nodau statudol ac i benderfynu ar rychwant fy ngrymoedd a'm hawdurdod.

Rwy'n **gyndyn** o ymddwyn neu weithredu mewn dull anghyfreithlon, afresymol neu ddireswm neu mewn unrhyw ffordd arall, a fyddai'n debygol o arwain at adolygiad barnwrol llwyddiannus, neu a allai arwain at fethiant i gyflawni dyletswydd statudol.

Enw Da

Rwy'n dibynnu ar sefydlu a chynnal enw da credadwy a dibynadwy er mwyn sicrhau ymgysylltiad rhanddeiliaid ac eraill Mae cael cefnogaeth cyrff cyhoeddus eraill, y Cynulliad a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru'n hanfodol er mwyn cyflawni ein nodau. O ganlyniad, byddaf yn mabwysiadau archwaeth **agored** at risg yng nghyd-destun fy enw da. Serch hynny, rwy'n barod i gymryd safiad a allai gael ei wrthwynebu gan rai o'n cynulleidfa pan fyddwn ni'n credu fod hynny'n hanfodol ar gyfer cyflawni un neu ragor o'n nodau statudol.



Diffiniadau

Archwaeth	Disgrifiad
Cyndyn	Mae osgoi risg ac ansicrwydd wrth gyflawni mentrau neu gyflawniadau allweddol o'r pwys mwyaf. Dim ond gweithgareddau yr ystyrir nad ydyn nhw'n cynnwys braidd ddim risg cysylltiol a fydd yn cael eu hymgymryd.
Lleiafsymiol	Tueddiad i ymgymryd â gweithgareddau a ystyrir yn ddiogel iawn o ran cyflawni mentrau neu gyflawniadau allweddol. Ymgymerir â gweithredoedd os oes ganddynt lefel isel o risg cysylltiol yn unig. Nid yw'r potensial cysylltiedig i ennill gwobr / geisio cyfle yn yrrwr allweddol wrth ddethol gweithgareddau.
Gofalus	Bodlon derbyn / goddef cyfran o risg wrth ddethol pa weithgareddau i ymgymryd â nhw er mwyn cyflawni mentrau neu gyflawniadau allweddol, ble rydym wedi adnabod sgôp i gyflawni gwobr sylweddol a / neu wireddu cyfle. Fe all gweithgareddau a ymgymerir ddod â thipyn o risg cysylltiol yn eu sgil, ond mae'n risg y bernir y gellir ei reoli i raddau helaeth.
Agored	Ymgymryd â gweithgareddau drwy geisio cyflawni cydbwysedd rhwng tebygrwydd uchel o gyflawni'n llwyddiannus a chyfradd uchel o wobr a gwerth am arian. Fe all gweithgareddau ddod â risg uchel yn eu sgil, neu gyfrannu ato.
Chwannog	Awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar wneud yn fawr o gyfleoedd (manteision a nodau ychwanegol) gan gynnwys gwobr arfaethedig fawr iawn, hyd yn oed os oes risg uchel iawn yn gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny.